



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Fframwaith Deilliannau – Grant Gwella Addysg

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r Grant Gwella Addysg – Fframwaith Deilliannau 2017-2018 i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Un o ofynion dyfarniad y Grant Gwella Addysg (GGA) 2017-2018 yw bod consortia yn cwblhau'r Fframwaith Deilliannau.

2.2 Bwriad y Fframwaith yw ynganu beth yw'r deilliannau cenedlaethol; arddangos sut drwy'r GGA, mae strategaethau consortia rhanbarthol yn cyfrannu i ddsbarthu'r deilliannau hyn a sicrhau bod y GGA yn cael effaith bositif ar ddeilliannau dysgwyr.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Cyfanswm y Grant Gwella Addysg ar gyfer rhanbarth GwE yn 2017-18 yw £29,186,163, gyda £2,486,280 o arian cyfatebol, sy'n rhoi cyfanswm o £31,672,443.

3.2 Llwyddwyd i sicrhau cyfradd datganoli i ysgolion o 86% ar gyfer 2017/18.

3.3 Mae'r Fframwaith GGA yn nodi'r deilliannau troswaol y dymuna Llywodraeth Cymru eu cyflawni ar gyfer pob dysgwr ledled Cymru. Bydd y GGA yn cyfrannu at bob un o'r deilliannau hyn, a

chydabu'r Fframwaith nad yw cyfraniad y GGA ar wahân i gyfraniadau eraill. Mae'r dyheadau ar gyfer y fframwaith hwn yn glir felly, y bydd yn cefnogi:

- Gwella deilliannau i bob dysgwr, a lleihau amrywiad mewn perfformiad ar draws ysgol;
- Gwella lles dysgwyr;
- Cyflymu cynnydd yr ysgolion hynny mewn categorïau cefnogaeth coch a melyngoch, a chategori ffurfiol Estyn;
- Ysgolion a lleoliadau yn darparu cwricwlwm eang a phriodol;
- Ysgolion a lleoliadau yn cael eu cefnogi a'u herio i weithredu'r agenda Dyfodol Llwyddiannus;
- Gwella ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth;
- Ysgolion a lleoliadau yn gallu tyfu fel sefydliadau dysgu, gan gydweithio a rhannu arbenigedd er budd pob dysgwr;
- Caiff y deilliannau cysylltiedig a'u dangosyddion perfformiad allweddol eu corffori yng nghynllun busnes y consortiwm a'r cynlluniau lefel 2/3.

3.4 Ar gyfer pob deiliant, mae nifer o fesurau/dangosyddion perfformiad; bydd y rhain yn nodwedd allweddol yng nghynlluniau busnes rhanbarthol y consortia (lefel 1), a chynlluniau gweithredu manylach (lefelau 2 a 3).

3.5 Bydd y broses Adolygu a Her yn edrych ar sut y defnyddir y GGA:

- Mis Ebrill/Mai: herio a darparu cefnogaeth ar sut y cyflawnir y cynllun busnes lefel 1;
- Mis Hydref: dylanwadu ar gynnwys y cynllun busnes drafft, a'i herio.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Fframwaith Deilliannau ar gyfer 2017-18.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE wrth ddatblygu'r ddogfen.

9.0 Atodiadau

9.1 Fframwaith Deilliannau 2017-18.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.